# Y Trefniadau Trwyddedu Mynediad i Addysg Uwch

Mai 2025

# Cynnwys

**Cyflwyniad .......... 1**

Manteision y Drwydded Asiantaeth DMiAU .......... 2

**Rhan 1: Dyfarnu Trwydded .......... 3**

Hyd cyfnod dilysrwydd y Drwydded .......... 3

Y ffioedd sy'n daladwy i QAA ar gyfer gwneud cais am Drwydded .......... 3

Amseriadau ar gyfer prosesu ceisiadau .......... 3

**Rhan 1a: Trwyddedau Asiantaeth DMiAU newydd .......... 4**

Cam 1 - Trafodaeth gychwynnol gyda QAA .......... 4

Cam 2 - Cwblhau'r cais .......... 4

Cam 3 - Adolygu'r cais am Drwydded, a chanlyniadau'r broses .......... 4

Cam 4 - Dyfarnu'r Drwydded Asiantaeth DMiAU .......... 7

Diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded, tynnu Trwydded yn ei hôl neu ei hildio .......... 7

**Rhan 1b: Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu .......... 8**

Cam 1 - Gwahoddiad i wneud cais a chwmpasu asesiad .......... 8

Cam 2 - Cwblhau'r cais .......... 8

Cam 3 - Adolygu'r cais am Drwydded, a chanlyniadau'r broses .......... 9

Diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded, tynnu Trwydded yn ei hôl neu ei hildio .......... 11

**Rhan 2: Asiantaeth DMiAU yn ildio ei Thrwydded .......... 12**

Ildio Trwydded wrth gyfuno .......... 12

Cam 1 - Hysbysiad cynnar .......... 13

Cam 2 - Hysbysiad ffurfiol .......... 13

Cynlluniau ar gyfer ildio Trwydded .......... 13

Trosglwyddo'r ddarpariaeth .......... 14

Cam 3 - Ildio Trwydded .......... 14

**Rhan 3: QAA yn tynnu Trwydded yn ei hôl .......... 15**

Gwneud argymhelliad a phenderfyniad i dynnu Trwydded yn ei hôl .......... 16

Hysbysiad ffurfiol .......... 16

Trefniadau i dynnu Trwydded yn ei hôl .......... 17

**Rhan 4: Cwyno ac apelio .......... 18**

# Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch ('QAA') yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae ei nodau elusennol yn cynnwys y cyfrifoldeb am roi cyngor i'r llywodraethau ynglŷn â'r gydnabyddiaeth a roddir i'r Diploma. Mae QAA hefyd yn cofrestru ac yn cynnal nod masnach y logo Mynediad i AU a nod masnach y geiriau Mynediad i AU (yr enw arnynt oll ar y cyd yw'r 'nodau masnach Mynediad i AU'), sef y nodau masnach sy'n gysylltiedig â'r Diploma.

2 I gynnal a chadw'r dulliau a ddefnyddir gan y llywodraethau i gydnabod y Diploma at ddiben cyllido, mae QAA yn gweithredu ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i AU (y 'Cynllun Cydnabod'). Mae'r term 'Cynllun Cydnabod' yn cyfeirio at drefniadau QAA ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r Diploma. Mae hefyd yn cynnwys fframwaith o ofynion sydd wedi eu nodi mewn dogfennau penodol a ddefnyddir gan QAA i ddyfarnu trwydded (y 'Drwydded') i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU') sy'n caniatáu iddynt ddatblygu, dilysu a chymeradwyo cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu.

3 Bydd QAA yn dyfarnu Trwydded i Asiantaeth DMiAU, ac yn caniatáu iddi ei chadw at y dibenion hyn, ar yr amod ei bod yn cytuno i lynu at ofynion QAA mewn perthynas â'r Diploma, fel y maen nhw wedi eu nodi yn y dogfennau a ganlyn sy'n ffurfio'r Cynllun Cydnabod:

3.1 **Y Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch** (y 'Telerau') sy'n nodi'r telerau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU gytuno iddynt er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw ei Thrwydded.

3.2 **Yr Amodau Mynediad i AU** (yr 'Amodau'), sef y goblygiadau y mae'n rhaid i ddarpar Asiantaeth DMiAU eu cyflawni (neu ddangos ei bod yn gallu eu cyflawni) er mwyn dod yn Asiantaeth DMiAU a pharhau i gadw ei Thrwydded.

4 Mae'r Telerau a'r Amodau'n esbonio'n glir beth yw gofynion parhaus QAA ar gyfer dyfarnu Trwydded. Mae'r Amodau'n cynnwys cyfeiriadau at ofynion, disgwyliadau a threfniadau sydd wedi eu nodi mewn dogfennau eraill. Mae hyn yn cynnwys trefniadau trwyddedu a monitro (y 'Trefniadau Monitro'), y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, *Manyleb y Diploma Mynediad i AU* a'r Disgrifwyr Pwnc. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol y gallai QAA eu cyflwyno sy'n nodi rhagor o wybodaeth am y dull y gallai QAA ei ddefnyddio i asesu cydymffurfiad ag amod penodol, neu i helpu Asiantaethau DMiAU i ddehongli'r gofynion.

5 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r 'trefniadau trwyddedu' - sef y trefniadau sydd gan QAA i ddyfarnu Trwyddedau Asiantaeth DMiAU, eu tynnu yn eu holau a goruchwylio'r broses o'u hildio. Mae hyn yn cynnwys:

- Y broses a'r trefniadau ar gyfer gwneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU newydd, a'i dyfarnu, i sefydliadau nad ydynt yn dal Trwydded ar y pryd.
- Y broses a'r trefniadau ar gyfer gwneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu, a'i dyfarnu, i Asiantaethau DMiAU cyfredol sydd eisiau adnewyddu eu Trwydded.
- Y broses a'r trefniadau i Asiantaethau DMiAU sydd eisiau ildio eu Trwydded.
- Y broses a'r trefniadau i'w defnyddio os bydd QAA yn penderfynu tynnu Trwydded yn ei hôl.

6 Mae Atodiad A: *Canllawiau ar wneud cais am drwyddedu* yn cynnwys canllawiau i helpu sefydliadau newydd ac Asiantaethau DMiAU cyfredol gyda'r broses ymgeisio.

## Manteision y Drwydded Asiantaeth DMiAU

7 Dyfernir Trwydded i Asiantaeth DMiAU os bydd QAA o'r farn bod yr asiantaeth hon yn gallu cydymffurfio â gofynion QAA ar gyfer cael cydnabyddiad Diploma. Mae dyfarnu Trwydded yn rhoi amrywiaeth o fanteision i'r Asiantaeth DMiAU, yn cynnwys:

7.1 cael cyfle i gynnig gwasanaethau ar gyfer datblygu a chydnabod cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU;

7.2 defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU i ddangos eu bod yn Asiantaeth DMiAU drwyddedig ac i ddangos statws y gwaith a wnânt mewn perthynas â darpariaeth Mynediad i AU gydnabyddedig;

7.3 manteisio ar waith QAA o ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth am y Diploma Mynediad i AU, a'r data ystadegol a'r cyngor a roddir gan QAA i ddarparwyr addysg uwch;

7.4 derbyn gwybodaeth gan QAA am ddatblygiadau yn ymwneud â'r Cynllun Cydnabod, a chael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a chynadleddau a drefnir gan QAA ac ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol ar ddatblygiad y Diploma Mynediad i AU;

7.5 bydd ei chyrsiau Mynediad i AU wedi eu rhestru ar gronfa ddata QAA o gyrsiau, a rhoddir gwybod i'r bobl sy'n gwneud ymholiadau i QAA pa gyrsiau Mynediad i AU sydd ar gael;

7.6 cael cyfle i hyrwyddo ei chyrsiau cydnabyddedig a'i chyfleoedd i symud ymlaen i fyfyrwyr, gan gyfeirio at hygrededd y Diploma Mynediad i AU yn y sector addysg uwch sy'n deillio o waith uchel ei barch QAA o reoli a chynnal trefniadau cenedlaethol.

# Rhan 1: Dyfarnu Trwydded

## Hyd cyfnod dilysrwydd y Drwydded

8 Dyfernir Trwydded am gyfnod penodol o amser, wedi hynny mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto i gadw ei Thrwydded. Penderfynir ar gyfnod dilysrwydd Trwydded ar sail unigol, ond bydd yn atebol i'r safiad polisi cyffredinol a ganlyn fel canllaw:

| Math o Drwydded | Cyfnod o ddilysrwydd |
|---|---|
| Trwydded newydd - i Asiantaethau DMiAU newydd | Cyfnod o dair blynedd ar y mwyaf |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle nad oes unrhyw bryderon parhaus am eu cydymffurfiad (er enghraifft, nid ydynt yn derbyn ymchwiliad parhaus ar y pryd) ac nid ydynt yn atebol i unrhyw gamau rheoleiddio | Pum mlynedd |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle mae pryderon parhaus am eu cydymffurfiad neu lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn atebol i weithredu cyfredol gan QAA o ganlyniad i unrhyw gamau rheoleiddio | Tair blynedd |

## Y ffioedd sy'n daladwy i QAA ar gyfer gwneud cais am Drwydded

9 Codir ffi ar sefydliad sy'n gwneud cais am Drwydded newydd i dalu am y broses ymgeisio, a bydd hon yn daladwy wrth gyflwyno'r cais. Ar hyn o bryd, y ffi am wneud cais am Drwydded newydd yw £32,500. Mae'r ffi hon yn gywir ar amser cyhoeddi'r manylion hyn ac mae'n debygol o newid yn flynyddol i gyfateb â chwyddiant. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru i adlewyrchu hynny.

10 Ni fydd gofyn i Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu dalu ffi am y broses ymgeisio.

11 Yn ogystal, codir ffioedd blynyddol ar Asiantaethau DMiAU am weithrediad y Cynllun Cydnabod fel sy'n ofynnol yn ôl cymal 13.7 yn y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch*. Diben y ffi gyfrannol hon yw sicrhau y gall QAA weithredu a chyflawni ei chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Diploma Mynediad i AU, yn cynnwys y gwaith cyffredinol o fonitro ac ail-drwyddedu Asiantaethau DMiAU cyfredol. Mae'r canllawiau'n esbonio sut mae'r ffi hon yn cael ei chyfrifo. Rhoddir gwybod mewn ysgrifen i Asiantaethau DMiAU unigol faint yw eu ffi bob blwyddyn wedi i gyllideb QAA gael ei chadarnhau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod.

## Amseriadau ar gyfer prosesu ceisiadau

12 Bydd nifer o ffactorau'n penderfynu faint o amser mae'n ei gymryd i asesu cais, yn cynnwys cymhlethdod y gwaith, y galw (faint o geisiadau am Drwydded sy'n cael eu prosesu a gweithgareddau rheoleiddio eraill y mae QAA yn eu gwneud), ac amseriad y cyflwyniad mewn perthynas ag amserlen y bobl yn QAA sy'n gwneud y penderfyniadau (y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU a Bwrdd QAA). Yn gyffredinol, byddwn yn disgwyl i gais gymryd 4-6 mis o amser llwytho'r cais hyd y penderfyniad. Yn ystod y broses, bydd Swyddogion QAA yn disgwyl bod mewn cysylltiad â sefydliadau ac Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud ceisiadau i drafod eu cais a sut mae'n dod yn ei flaen.

## Rhan 1a: Trwyddedau Asiantaeth DMiAU newydd

13 Dylai sefydliad sy'n ystyried gwneud cais am Drwydded am y tro cyntaf ymgyfarwyddo â'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw Trwydded. Mae hyn yn cynnwys y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU*, yr *Amodau Mynediad i Addysg Uwch* a'r ddogfen hon, cyn symud ymlaen at Gam 1 y broses.

### Cam 1 - Trafodaeth gychwynnol gyda QAA

14 Unwaith y byddant yn gyfarwydd â'r dogfennau sydd wedi eu nodi uchod, ochr yn ochr â'r canllaw hwn, dylai'r sefydliad gysylltu â QAA i ofyn am gyfarfod.

15 Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i'r sefydliad sy'n ymgeisio ofyn cwestiynau am y broses ymgeisio a'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i QAA ddod i ddeall y sefydliad, ei gyd-destun gweithredu a'i gynlluniau mewn perthynas â Mynediad i AU cyn derbyn cais.

### Cam 2 - Cwblhau'r cais

16 Os bydd y sefydliad eisiau symud ymlaen gyda chais, dylai ofyn am becyn cais a dilyn y canllawiau ymgeisio sydd wedi eu nodi yn Atodiad A.

17 Diben y cais am Drwydded newydd yw rhoi cyfle i QAA asesu gallu'r sefydliad i fodloni'r gofynion ar Asiantaethau DMiAU cyn belled â'u bod yn rhesymol berthnasol cyn dyfarnu Trwydded a chyn iddynt ddechrau gweithredu fel Asiantaeth DMiAU. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd disgwyl i'r Asiantaeth DMiAU ddangos ei bod yn gallu bodloni pob un o ofynion y Cynllun Cydnabod yn barhaus fel y maent wedi eu nodi yn y Dogfennau Rheoleiddiol (gwelwch Amod A6.1) a'r canllawiau. Mae'n syniad da felly i sefydliadau sydd eisiau gwneud cais am Drwydded newydd ymgyfarwyddo â'r holl ofynion cyn symud ymlaen gyda chais.

18 Yn gyffredinol, os nad yw'n bosibl dangos cydymffurfiad â gofynion penodol ar sail y ffaith nad oes gan y sefydliad weithrediadau Mynediad i AU ar y pryd, byddai QAA o'r farn bod cynllun credadwy ar gyfer bodloni'r gofyniad yn ddigon o dystiolaeth. Pan fydd sefydliad yn darparu tystiolaeth fel yma ei gais, dylid darparu esboniad clir, sy'n cynnwys:

- Rheswm/rhesymau clir pam nad oes modd bodloni'r gofyniad ar adeg y cais.
- Esboniad o arferion a fwriedir a fydd yn bodloni'r gofynion a'r cynlluniau ar gyfer eu gweithredu.
- Yr amseriadau ar gyfer gweithredu'r arferion a fydd yn bodloni'r gofynion.

19 Yn Atodiad A mae canllawiau i helpu sefydliadau i gwblhau eu ceisiadau, yn cynnwys manylion y gofynion.

### Cam 3 - Adolygu'r cais am Drwydded, a chanlyniadau'r broses

20 Unwaith y bydd cais a'r holl ddogfennau ategol cysylltiedig wedi eu cyflwyno, ac mae'r ffi am wneud y cais wedi ei thalu, bydd Swyddog o'r tîm Mynediad i Addysg Uwch yn adolygu'r cais gan ddilyn y broses a ganlyn.

#### Cam 1 - Gwirio'r dogfennau

21 Bydd y pecyn cais yn cael ei sgrinio gan Swyddog QAA i sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau yn ei chyfanrwydd a bod yr holl ddogfennau ategol wedi eu cyflwyno. Os bydd gwybodaeth ar goll, bydd y Swyddog QAA yn cysylltu â'r sefydliad ac yn nodi pa wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn symud ymlaen â'r asesiad. Ni fydd y cais yn symud ymlaen i Gam 2 y broses hon nes bydd QAA wedi derbyn y pecyn cais cyflawn.

**Cam 2 - Adolygu'r cais**

22 Unwaith y cadarnheir bod y cais yn gyflawn, bydd y Swyddog QAA yn adolygu'r holl ddogfennau a gyflwynwyd, gan geisio tystiolaeth sy'n dangos bod y sefydliad yn bodloni, neu y bydd yn bodloni, gofynion y Telerau a'r Amodau sy'n gysylltiedig â Thrwydded.

23 Ar ôl adolygu'r cais, efallai y bydd gofyn cael rhagor o wybodaeth er mwyn cwblhau'r asesiad. Efallai mai tystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen, neu eglurhad neu sicrwydd pellach. Lle bo modd, bydd y Swyddog QAA sy'n adolygu'r cais yn amcanu i gyfuno'r holl ymholiadau angenrheidiol mewn un gofyniad. Bydd yn anfon y gofyniad hwn, ochr yn ochr â dyddiad cau ar gyfer ymateb. Os yw'n briodol neu'n gyfleus, mae modd darparu rhagor o wybodaeth dros y ffôn neu alwad fideo, neu'n ysgrifenedig mewn e-bost. Bydd y Swyddog sy'n asesu'r cais yn gallu rhoi cyngor am y dull mwyaf addas.

24 Cwblheir asesiad o'r cais a bydd hwn yn dangos a oes digon o dystiolaeth fod pob un o ofynion y Cynllun Cydnabod wedi eu bodloni, neu'n debygol o gael eu bodloni.

25 Mae'r gofynion craidd i'w gweld yn y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU* a'r *Amodau Mynediad i Addysg Uwch*. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys rhagor o ofynion i gydymffurfio â dogfennaeth ehangach y Cynllun Cydnabod, er enghraifft, y *Cynllun Graddio*, *Manyleb y Diploma* a'r Disgrifwyr Pwnc. Pan fyddent ar gael, gall canllawiau ychwanegol ddarparu rhagor o wybodaeth am ddull arferol QAA o ddehongli'r gofynion hyn a pha ymddygiad allai a pha ymddygiad na allai gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n cydymffurfio. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan, neu os gofynnir amdanynt. Yn gyffredinol, pan ystyrir gallu'r sefydliad i fodloni'r gofynion, bydd hyn wedi ei seilio ar yr egwyddorion sydd wedi eu nodi yn yr *Amodau* a'r *Trefniadau Monitro Mynediad i AU.* Wrth asesu a fydd y sefydliad yn bodloni agweddau penodol o'r gofynion yn y dyfodol, rhoddir pwys mawr ar ba mor gredadwy yw'r cynlluniau a amlinellir yn y cais ac a allwn ni deimlo'n sicr y gellir rhoi'r cynlluniau ar waith go iawn ar sail y wybodaeth a ddarparwyd.

**Cam 3 - Gwneud argymhelliad**

26 Cofnodir yr asesiad mewn adroddiad sy'n nodi'r canlyniad a argymhellir i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau, gan roi rhesymau eglur dros yr argymhelliad. Rhaid gwneud yr argymhellion hyn yn unig swydd ar sail y wybodaeth sydd gan QAA am y sefydliad sy'n ymgeisio a'i gais, ac i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn dangos tystiolaeth ei fod yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Dyma ganlyniadau posibl y broses ymgeisio:

| | |
|---|---|
| Argymhelliad i ddyfarnu Trwydded newydd (am dair blynedd) | Argymhellir dyfarnu Trwydded newydd i'r sefydliad am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar gyflawni'r gwaith cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU newydd yn barhaus. Efallai y bydd mân gamau gweithredu neu ofynion yn atodol i'r dyfarniad, nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i warantu ymyriad ffurfiol. Er enghraifft, cais i'r Asiantaeth DMiAU ddarparu tystiolaeth ei bod yn rhoi cynllun ar waith ar adeg benodol. |
| Argymhelliad i ddyfarnu Trwydded newydd (am dair blynedd) gydag ymyriad monitro | Argymhellir dyfarnu Trwydded newydd i'r sefydliad am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar gyflawni'r gwaith cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU newydd yn barhaus *a hefyd* wneud ymyriadau monitro lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol er mwyn lleihau risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â'r Telerau neu'r Amodau. Mae hysbysiad ffurfiol neu amod penodol yn ddwy enghraifft o ymyriad o'r fath. Rhoddir gwybod i Asiantaethau DMiAU am fanylion unrhyw ofynion ychwanegol yng nghanlyniad eu cais. |
| Argymhelliad i wrthod dyfarnu Trwydded newydd | Argymhellir na ddylid dyfarnu Trwydded i'r sefydliad ar y pryd ac ar sail y cais a gyflwynwyd. Y rheswm am hynny yw nad yw'r cais yn dangos yn ddigonol bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Telerau neu'r Amodau, neu nid yw'n dangos tebygolrwydd credadwy y bydd yn cydymffurfio â'r gofynion wedi iddi ddilyn camau gweithredu neu ymyriad rhesymol. Bydd manylion y rhesymau dros wrthodiad ar y pryd i'w cael yn yr adroddiad asesu. |

27 Bydd y Rheolwr Mynediad i AU a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio'n adolygu ac yn cytuno ar yr argymhellion cyn symud ymlaen at y cam nesaf yn y broses o wneud penderfyniadau. Rhoddir gwybod i'r sefydliad sy'n ymgeisio am yr argymhelliad dros dro a'r rhesymau amdano, yn ogystal â chadarnhad o'r amseriadau disgwyliedig ar gyfer derbyn penderfyniad.

**Cam 4 - Gwneud penderfyniad**

28 O dan Gynllun Awdurdodau Dirprwyedig QAA, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) ystyried unrhyw benderfyniadau am ddyfarnu Trwyddedau Asiantaeth DMiAU, a phenderfyniadau am eu tynnu yn eu holau, i'w hargymell i Fwrdd QAA. Y Pwyllgor RhThrMiAU, sy'n is-bwyllgor i Fwrdd QAA, fydd yn ystyried yr asesiad a'r argymhelliad i ddechrau, gyda'r canlyniadau a ganlyn:

- Os argymhellir **dyfarnu Trwydded** ac mae'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno â hynny, yna argymhellir hynny i Fwrdd QAA.
- Os argymhellir **dyfarnu Trwydded** ac nid yw'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, bydd yr asesiad yn mynd yn ôl at y Swyddogion i gael ei ystyried eto. Yn y sefyllfa hon, efallai y bydd angen sicrhau rhagor o wybodaeth a bydd y sefydliad yn derbyn diweddariad am hynt eu cais a'r amseriadau tebygol ar gyfer derbyn penderfyniad.
- Os argymhellir **gwrthod dyfarnu Trwydded** ac mae'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, gwrthodir y cais ac ni fydd rhagor o argymhellion. Hysbysir y sefydliad am y canlyniad.

- Os argymhellir **gwrthod dyfarnu Trwydded** ac nid yw'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, bydd yr asesiad yn mynd yn ôl at y Swyddogion i gael ei ail ystyried. Bydd y sefydliad yn derbyn diweddariad am hynt eu cais a'r amseriadau tebygol ar gyfer derbyn penderfyniad.

## Cam 4 - Dyfarnu'r Drwydded Asiantaeth DMiAU

29 Os derbynnir yr argymhelliad ac mae Bwrdd QAA yn penderfynu dyfarnu Trwydded newydd, bydd y Drwydded hon yn ddilys o ddyddiad y penderfyniad a bydd y sefydliad yn atebol i'w thelerau o'r dyddiad hwnnw.

30 Cadarnheir unrhyw amodau ychwanegol neu ofynion monitro mewn ysgrifen pan ddyfernir y Drwydded a dylid eu darllen a'u deall yn unol â gofynion y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU*.

## Diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded, tynnu Trwydded yn ei hôl neu ei hildio

31 Os nad oes rheswm penodol dros argymell bod Trwydded yn cael ei thynnu yn ei hôl cyn diwedd y cyfnod y cytunwyd arno, ac ni hysbysir QAA fel arall am fwriad yr Asiantaeth DMiAU i ildio ei Thrwydded, bydd QAA yn cysylltu â'r Asiantaeth DMiAU ynghylch gwneud cais am adnewyddu ei Thrwydded tua diwedd ei chyfnod dilysrwydd (gwelwch Ran 2).

32 Os na fydd yr Asiantaeth DMiAU eisiau adnewyddu ei Thrwydded ar ddiwedd y cyfnod, ystyrir hynny'n achos o ildio Trwydded ac mae'n rhaid iddi roi gwybod i QAA gynted ag y bydd hi'n ymwybodol o hynny, gan ddilyn y broses sydd wedi ei hamlinellu yn Rhan 2 isod. Os daw'r hysbysiad hwn yn rhy agos at ddiwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded i alluogi cymryd mesurau rhesymol i drosglwyddo myfyrwyr neu i lunio cynllun iddynt allu cwblhau eu cyrsiau, efallai y bydd QAA yn barnu y byddai'n briodol trefnu Trwydded wedi'i hadnewyddu - gydag amodau penodol neu am gyfnod dilysrwydd byrrach - i ddiogelu terfyniad y ddarpariaeth er budd y myfyrwyr.

33 Os bydd hi'n dod yn amlwg yn ystod cyfnod dilysrwydd y Drwydded nad yw'r Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio â'r Telerau, ac nad yw'r risg(iau) cysylltiedig wedi eu lleihau'n ddigonol drwy ymyriad rheoleiddio, efallai y bydd Swyddogion QAA yn argymell i Fwrdd QAA y dylid tynnu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl. Os bydd hyn yn digwydd tua diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded i'r graddau nad oes modd gwneud trefniadau pontio digonol i'r myfyrwyr cyfredol, bydd QAA yn cymryd mesurau i sicrhau cydnabyddiad priodol i'r cyrsiau er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr. Mae rhagor o fanylion yn Rhan 3 y ddogfen hon.

## Rhan 1b: Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu

34 Tua diwedd cyfnod dilysrwydd ei Thrwydded, bydd QAA yn gwahodd yr Asiantaeth DMiAU i wneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu ac yn darparu amseriad ar gyfer cyflwyno cais a fydd tua chwe mis cyn i gyfnod dilysrwydd y Drwydded ddod i ben.

35 Y diben yw y bydd dull QAA o asesu Asiantaethau DMiAU cyfredol yn gymesur â'n dealltwriaeth ni o risg reoliadol ymhob cyd-destun. Felly, bydd gofynion y cais yn amrywio o un asiantaeth DMiAU i'r llall ac maen nhw'n debygol o ddibynnu ar y ffactorau a ganlyn:

- Hyd cyfnod dilysrwydd y Drwydded flaenorol
- Ei hanes o ran monitro ac ymyriad yn ystod cyfnod dilysrwydd y Drwydded flaenorol
- Unrhyw newidiadau sydd wedi sefydlu neu a ragwelir i weithrediad yr Asiantaeth DMiAU.

36 Mae'r broses o ail-drwyddedu'n rhoi cyfle i QAA ei sicrhau ei hun bod yr Asiantaeth DMiAU yn parhau i allu cydymffurfio â Thelerau ei Thrwydded yn ymarferol a thros amser. Mae'n darparu pwynt ymgysylltu ac adolygu ffurfiol i gefnogi'r gwaith o gynnal a chadw ansawdd a safonau wrth ddilysu a darparu Mynediad i AU.

37 Os na roddir hysbysiad ysgrifenedig yn dweud yn wahanol i QAA, cymerir yn ganiataol bod yr Asiantaeth DMiAU yn bwriadu adnewyddu ei Thrwydded. Bydd QAA yn ystyried bod unrhyw Asiantaeth DMiAU sy'n bwriadu peidio adnewyddu neu sy'n gwrthod adnewyddu ei Thrwydded, yn bwriadu ildio ei Thrwydded. Gwelwch fanylion y trefniadau ar gyfer ildio Trwydded yn Rhan 2 y ddogfen hon.

### Cam 1 - Gwahoddiad i wneud cais a chwmpasu asesiad

38 O ran y broses o ddyfarnu Trwydded newydd, disgwylir i Asiantaethau DMiAU dderbyn asesiad ar ddiwedd cyfnod dilysrwydd eu Trwydded er mwyn rhoi sicrwydd i QAA eu bod yn parhau i allu bodloni Telerau ac Amodau'r Drwydded cyn iddi gael ei hadnewyddu. Cesglir rhan o'r wybodaeth hon drwy broses o wneud cais.

39 Os nad yw Asiantaeth DMiAU wedi rhoi gwybod fel arall i QAA ei bod yn bwriadu peidio adnewyddu (neu'n bwriadu ildio) ei Thrwydded, bydd QAA yn ysgrifennu at yr Asiantaeth DMiAU tua naw mis cyn diwedd cyfnod dilysrwydd cyfredol y Drwydded i roi gwybod am ein gofynion disgwyliedig ar gyfer y cais ac amseriad ar gyfer cyflwyno'r cais. Fel arfer bydd y dyddiad cau ar gyfer y cais chwe mis cyn diwedd y cyfnod dilysrwydd cyfredol, er bod croeso i Asiantaethau DMiAU gyflwyno cais unrhyw bryd wedi iddynt dderbyn y llythyr.

40 Er mwyn cyflawni ei chyfrifoldeb mewn ffordd gymesur ac i leihau'r baich lle bo modd, gallai'r wybodaeth y gofynnir amdani gan QAA amrywio o un cais adnewyddu Trwydded i'r llall. Mae'r cam hwn yn gyfle i drafod neu ymholi am y gofynion sydd wedi eu nodi yn y llythyr hwn i QAA ac i'r Asiantaethau DMiAU lle bo angen.

### Cam 2 - Cwblhau'r cais

41 Gallwch weld manylion y gofynion cyffredinol a'r canllawiau ynghylch gwneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu yn Atodiad A.

42 Fel y nodwyd eisoes, gallai'r dystiolaeth y bydd QAA yn gofyn amdani gan Asiantaethau DMiAU amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n seiliedig ar y wybodaeth fonitro sydd ganddi am yr Asiantaeth DMiAU unigol. Bydd unrhyw ofynion ychwanegol penodol i'w cyflawni wrth ymgeisio, neu unrhyw ofynion y byddwn yn ei hystyried yn briodol i'w dileu, wedi eu nodi yn y llythyr gwahodd.

## Cam 3 - Adolygu'r cais am Drwydded, a chanlyniadau'r broses

43 Unwaith y bydd cais a'r holl ddogfennau ategol cysylltiedig wedi eu cyflwyno, bydd Swyddog o'r tîm Mynediad i Addysg Uwch yn adolygu'r cais gan ddilyn y broses a ganlyn.

**Cam 1 - Gwirio'r dogfennau**

44 Bydd y pecyn cais yn cael ei sgrinio gan Swyddog QAA i sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau yn ei chyfanrwydd a bod yr holl ddogfennau ategol wedi eu cyflwyno. Os bydd gwybodaeth ar goll, bydd y Swyddog QAA yn cysylltu â'r sefydliad ac yn nodi pa wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn symud ymlaen â'r asesiad. Ni fydd y cais yn symud ymlaen i Gam 2 y broses hon nes bydd QAA wedi derbyn y pecyn cais cyflawn.

45 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cyflwyno'r wybodaeth ofynnol dro ar ôl tro gan achosi i asesiad y cais gael ei oedi, a hynny i'r graddau y gallai'r Drwydded gyfredol ddod i ben cyn y gellir cymeradwyo Trwydded wedi'i hadnewyddu, gall QAA weithredu i atal y Drwydded gyfredol dros dro naill ai nes bydd Trwydded newydd yn cael ei chymeradwyo neu nes bydd Bwrdd QAA yn derbyn argymhelliad i dynnu'r Drwydded gyfredol yn ei hôl.

**Cam 2 - Adolygu'r cais**

46 Unwaith y cadarnheir bod y cais yn gyflawn, bydd y Swyddog QAA yn adolygu'r holl ddogfennau a gyflwynwyd, gan geisio tystiolaeth sy'n dangos bod yr Asiantaeth DMiAU yn parhau i fodloni Telerau ac Amodau'r Drwydded.

47 Ar ôl adolygu'r cais, efallai y bydd gofyn cael rhagor o wybodaeth er mwyn cwblhau'r asesiad. Efallai mai tystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen, neu eglurhad neu sicrwydd pellach. Lle bo modd, bydd y Swyddog QAA sy'n adolygu'r cais yn amcanu i gyfuno'r holl ymholiadau angenrheidiol mewn un gofyniad. Bydd yn anfon y gofyniad hwn, ochr yn ochr â dyddiad cau ar gyfer ymateb. Os yw'n briodol neu'n gyfleus, mae modd darparu rhagor o wybodaeth dros y ffôn neu alwad fideo, neu'n ysgrifenedig mewn e-bost. Bydd y Swyddog sy'n asesu'r cais yn gallu rhoi cyngor am y dull mwyaf addas.

48 Cwblheir asesiad o'r cais a bydd hwn yn dangos a oes digon o dystiolaeth fod pob un o ofynion y Cynllun Cydnabod wedi eu bodloni, neu'n debygol o gael eu bodloni.

49 Mae'r gofynion craidd i'w gweld yn y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU* a'r *Amodau Mynediad i Addysg Uwch*. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys rhagor o ofynion i gydymffurfio â dogfennaeth ehangach y Cynllun Cydnabod, er enghraifft, y *Cynllun Graddio*, *Manyleb y Diploma* a'r Disgrifwyr Pwnc. Pan fyddent ar gael, gall canllawiau ychwanegol ddarparu rhagor o wybodaeth am ddull arferol QAA o ddehongli'r gofynion hyn a pha ymddygiad allai a pha ymddygiad na allai gael ei ystyried yn ymddygiad sy'n cydymffurfio. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan, neu os gofynnir amdanynt. Yn gyffredinol, pan ystyrir gallu'r sefydliad i fodloni'r gofynion, bydd hyn wedi ei seilio ar yr egwyddorion sydd wedi eu nodi yn yr *Amodau* a'r *Trefniadau Monitro.*

50 Wrth ystyried pa wybodaeth sydd gan QAA am hanes monitro ac ymyriad yr Asiantaeth DMiAU, a hynny at ddibenion asesu cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu, bydd QAA yn cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- unrhyw drefniadau monitro manylach ac unrhyw ymyriadau a weithredwyd yn ystod cyfnod dilysrwydd y Drwydded; a
- thystiolaeth o unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei wneud o'r Asiantaeth DMiAU ar adeg yr ail-drwyddedu.

**Cam 3 - Gwneud argymhelliad**

51 Cofnodir yr asesiad mewn adroddiad sy'n nodi'r canlyniad a argymhellir i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau, gan roi rhesymau eglur dros yr argymhelliad. Rhaid gwneud yr argymhellion hyn yn unig swydd ar sail y wybodaeth sydd gan QAA am y sefydliad sy'n ymgeisio a'i gais, ac i ba raddau y mae'r wybodaeth hon yn dangos tystiolaeth ei fod yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Dyma ganlyniadau posibl y broses ymgeisio:

| | |
|---|---|
| Argymhelliad i ddyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu (am bum mlynedd) | Argymhellir dyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu i'r Asiantaeth DMiAU am gyfnod o bum mlynedd, yn amodol ar gyflawni'r gwaith cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU yn barhaus. Efallai y bydd mân gamau gweithredu neu ofynion yn atodol i'r dyfarniad, nad ydynt yn cyrraedd y trothwy i warantu ymyriad monitro ffurfiol. Er enghraifft, cais i'r Asiantaeth DMiAU ddarparu tystiolaeth ei bod yn rhoi cynllun ar waith ar adeg benodol. |
| Argymhelliad i ddyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu (am dair blynedd) gydag ymyriad monitro | Argymhellir dyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu i'r Asiantaeth DMiAU am gyfnod o dair blynedd, yn amodol ar gyflawni'r gwaith cyffredinol o fonitro Asiantaethau DMiAU yn barhaus *a hefyd* wneud ymyriad(au) monitro, lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, er mwyn lleihau risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â'r Telerau neu'r Amodau. Mae hysbysiad ffurfiol neu amod penodol yn ddwy enghraifft o ymyriad o'r fath. Rhoddir gwybod i Asiantaethau DMiAU am fanylion unrhyw ofynion ychwanegol yng nghanlyniad eu cais. |
| Argymhelliad i wrthod dyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu | Argymhellir na ddylid dyfarnu Trwydded wedi'i hadnewyddu i'r Asiantaeth DMiAU ar y pryd ac ar sail y cais a gyflwynwyd. Y rheswm am hynny yw nad yw'r cais yn dangos yn ddigonol bod y sefydliad yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun Cydnabod, neu nid yw'n dangos tebygolrwydd credadwy y bydd yn cydymffurfio â'r gofynion wedi iddi ddilyn camau gweithredu neu ymyriad rhesymol. Bydd manylion y rhesymau dros wrthodiad ar y pryd i'w cael yn yr adroddiad asesu (gwelwch y wybodaeth am *dynnu Trwydded yn ei hôl*). |

52 Wrth ystyried cyfnod dilysrwydd y Drwydded wedi'i hadnewyddu, os bydd yr asesiad wedi dangos bod angen argymell ymyriad monitro manylach, fel y mae wedi ei ddisgrifio yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU,* mae hyn yn arwydd fel arfer bod angen cynnig Trwydded gyda chyfnod dilysrwydd byrrach. Y rheswm am hynny yw bod adnewyddu Trwydded yn gynharach yn rhoi mwy o gyfle i fonitro a lliniaru'r risgiau a welwyd. Pan roddir argymhellion pellach neu pan nodir bod angen cymryd camau pellach, ond nid yw'r rhain yn cyrraedd y trothwy ar gyfer gorfodi ymyriad ffurfiol (er enghraifft, os nad yw'r risgiau a welwyd yn ddigon mawr i warantu gwneud ymyriad) ystyrir fel arfer bod cyfnod dilysrwydd o bum mlynedd yn briodol i'r Drwydded. Os parheir i fethu cwblhau'r camau gweithredu bach a nodwyd, mae'n bosibl y bydd angen gwneud gwaith monitro manylach yn ystod cyfnod dilysrwydd y Drwydded, ac mae'n bosibl y bydd asesiadau trwyddedu pellach yn cymryd hynny i ystyriaeth.

53 Bydd y Rheolwr Mynediad i AU a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio'n adolygu ac yn cytuno ar yr argymhellion cyn symud ymlaen at y cam nesaf yn y broses o wneud penderfyniadau. Rhoddir gwybod i'r Asiantaeth DMiAU sy'n ymgeisio am yr argymhelliad dros dro a'r rhesymau amdano, yn ogystal â chadarnhad o'r amseriadau disgwyliedig ar gyfer derbyn penderfyniad.

**Cam 4 - Gwneud penderfyniad**

54 O dan Gynllun Awdurdodau Dirprwyedig QAA, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU (Pwyllgor RhThrMiAU) ystyried unrhyw benderfyniadau am ddyfarnu Trwyddedau Asiantaeth DMiAU, a phenderfyniadau am eu tynnu yn eu holau, i'w hargymell i Fwrdd QAA. Y Pwyllgor RhThrMiAU, sy'n is-bwyllgor i Fwrdd QAA, fydd yn ystyried yr asesiad a'r argymhelliad i ddechrau, gyda'r canlyniadau a ganlyn:

- Os argymhellir **dyfarnu Trwydded**, naill ai gyda neu heb ymyriad monitro ychwanegol, ac mae'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno â hynny, yna argymhellir hynny i Fwrdd QAA.
- Os argymhellir **dyfarnu Trwydded** ac nid yw'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, bydd yr asesiad yn mynd yn ôl at y Swyddogion i gael ei ystyried eto. Yn y sefyllfa hon, efallai y bydd angen sicrhau rhagor o wybodaeth a bydd y sefydliad yn derbyn diweddariad am hynt eu cais a'r amseriadau tebygol ar gyfer derbyn penderfyniad.
- Os argymhellir **gwrthod dyfarnu Trwydded** ac mae'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, gwrthodir y cais ac ni fydd rhagor o argymhellion. Hysbysir y sefydliad am y canlyniad.
- Os argymhellir **gwrthod dyfarnu Trwydded** ac nid yw'r Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno, bydd yr asesiad yn mynd yn ôl at y Swyddogion i gael ei ail ystyried. Bydd y sefydliad yn derbyn diweddariad am hynt eu cais a'r amseriadau tebygol ar gyfer derbyn penderfyniad.

55 Y disgwyl yw mai'r unig bryd y gwrthodir adnewyddu Trwydded Asiantaeth DMiAU yw os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg drwy gyfrwng y broses o wneud cais am Drwydded wedi'i hadnewyddu sy'n achosi digon o bryder i beri i QAA dynnu'r Drwydded gyfredol yn ei hôl yn unol â'r dull sydd wedi ei nodi yn y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU.* Yn yr achos hwn, byddai'r Asiantaeth DMiAU yn atebol i drefniadau i dynnu Trwydded yn ei hôl.

## Diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded, tynnu Trwydded yn ei hôl neu ei hildio

56 Os nad oes rheswm penodol dros argymell bod Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn cael ei thynnu yn ei hôl cyn diwedd y cyfnod y cytunwyd arno, ac ni hysbysir QAA fel arall am fwriad yr Asiantaeth DMiAU i ildio ei Thrwydded, bydd QAA yn parhau i gysylltu â'r Asiantaeth DMiAU ynghylch gwneud cais am adnewyddu ei Thrwydded tua diwedd ei chyfnod dilysrwydd.

57 Os na fydd yr Asiantaeth DMiAU eisiau adnewyddu ei Thrwydded ar ddiwedd y cyfnod, ystyrir hynny'n achos o ildio Trwydded ac mae'n rhaid iddi roi gwybod i QAA gynted ag y bydd hi'n ymwybodol o hynny, gan ddilyn y broses sydd wedi ei hamlinellu yn Rhan 2 isod. Os daw'r hysbysiad hwn yn rhy agos at ddiwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded i alluogi cymryd mesurau rhesymol i drosglwyddo myfyrwyr neu i lunio cynllun iddynt allu cwblhau eu cyrsiau, efallai y bydd QAA yn barnu y byddai'n briodol trefnu Trwydded wedi'i hadnewyddu - gydag amodau penodol neu am gyfnod dilysrwydd byrrach - i ddiogelu terfyniad y ddarpariaeth er budd y myfyrwyr.

58 Os bydd hi'n dod yn amlwg yn ystod cyfnod dilysrwydd y Drwydded nad yw'r Asiantaeth DMiAU yn gallu cydymffurfio â Thelerau neu Amodau ei Thrwydded, ac nad yw'r risg(iau) cysylltiedig wedi eu lleihau'n ddigonol drwy ymyriad rheoleiddio, efallai y bydd Swyddogion QAA yn argymell i Fwrdd QAA y dylid tynnu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl. Os bydd hyn yn digwydd tua diwedd cyfnod dilysrwydd y Drwydded i'r graddau nad oes modd gwneud trefniadau pontio digonol i'r myfyrwyr cyfredol, bydd QAA yn cymryd mesurau i sicrhau cydnabyddiad priodol i'r cyrsiau er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr. Mae rhagor o fanylion yn Rhan 3 y ddogfen hon.

## Rhan 2: Asiantaeth DMiAU yn ildio ei Thrwydded

59 Cydnabyddir y bydd Asiantaeth DMiAU, o bryd i'w gilydd, ac am amrywiol resymau, eisiau rhoi'r gorau i weithredu fel Asiantaeth DMiAU ac ildio ei Thrwydded. Gallai hynny ddigwydd os bydd Asiantaeth DMiAU:

- yn dymuno peidio adnewyddu ei Thrwydded.
- wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w gweithrediadau Mynediad i AU ond mae'n bwriadu parhau i weithredu fel arall.
- wedi penderfynu cau, neu wrthi'n cau, am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.
- yn bwriadu cyfuno â sefydliad arall, *oni bai* mai'r asiantaeth hon yw'r gorfforaeth sy'n parhau.

60 Mae'r trefniadau isod yn berthnasol pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn bwriadu ildio ei Thrwydded ac mae'n dod â'i gweithrediadau Mynediad i AU i ben trwy broses wedi'i chynllunio a'i rheoli. Os bydd Asiantaeth DMiAU yn ymadael â'r farchnad mewn ffordd sydd heb ei gynllunio neu ei reoli, bydd QAA yn cymryd pob cam gweithredu sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r myfyrwyr ac i sicrhau bod eu darpariaeth, a dyfarniadau'r ddarpariaeth, yn parhau mewn ffordd gyson.

### Ildio Trwydded wrth gyfuno

61 Mae Cymal 13.11 y *Telerau Safonol ar gyfer Trwyddedu Asiantaethau DMiAU* yn nodi bod yn rhaid i'r Asiantaeth DMiAU:

> *"beidio is-drwyddedu, trosglwyddo, neu ollwng mewn unrhyw ffordd arall, unrhyw hawliau a ganiateir i'r Asiantaeth DMiAU o dan y Telerau hyn i unrhyw drydydd parti, heblaw i Ddarparwyr cymwys yn unol â'r Telerau hyn."*

62 Mae hyn yn golygu, os diddymir yr Asiantaeth DMiAU er mwyn dod yn rhan o endid newydd neu'n rhan o endid cyfredol, nid oes modd trosglwyddo ei Thrwydded i'r endid newydd hwnnw. Mae'n rhaid ildio'r Drwydded ac mae'n rhaid i'r endid newydd wneud un o'r ddau opsiwn a ganlyn:

- Os nad yw'n Asiantaeth DMiAU gyfredol, mae'n rhaid iddo wneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU os bydd eisiau cadw gweithrediadau Mynediad i AU y gyn-Asiantaeth DMiAU. Gall hyn fod yn berthnasol os bydd pob un o'r endidau'n cael eu diddymu i wneud endid corfforaethol newydd, neu os nad yw'r endid sy'n parhau i fodoli yn Asiantaeth DMiAU ar y pryd.
- Os yw'n Asiantaeth DMiAU gyfredol, rhaid iddi roi sicrwydd priodol i QAA o'i gallu a'i phroses ar gyfer caffael gweithrediadau Mynediad i AU y gyn-Asiantaeth DMiAU.

64 Os bydd Asiantaeth DMiAU gyfredol eisiau caffael Asiantaeth DMiAU arall, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfnod dilysrwydd ei Thrwydded. Ond, pan fydd yr endid sydd wedi ei gaffael yn atebol i Drwydded gyda chyfnod dilysrwydd byrrach ac ymyriadau monitro sydd wedi eu nodi yn y Trefniadau Monitro, efallai y bydd QAA eisiau gosod amodau penodol ychwanegol ar Drwydded yr Asiantaeth DMiAU sy'n caffael y gweithrediadau, er mwyn lleihau'r risg sy'n trosglwyddo gan yr Asiantaeth DMiAU sy'n cael ei diddymu.

65 Derbynnir y ffaith bod cyfuniadau'n gallu bod yn brosesau cymhleth i'r busnesau perthnasol ac y gallai hyn effeithio ar yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau unrhyw broses o'r fath. Pan ddisgwylir i gyfnod dilysrwydd y Drwydded ddod i ben yn ystod y broses gyfuno, bydd QAA yn ymdrechu i reoli hynny yn y ffordd sy'n achosi'r baich lleiaf i bob ochr ac sydd fwyaf cymesur ag unrhyw risg sy'n codi mewn perthynas â'i gofynion ar Asiantaethau DMiAU, gyda'r nod o sicrhau parhad a chysondeb i'r myfyrwyr. Ystyrir hyn yn ôl yr achos unigol.

63 Os bydd Asiantaeth DMiAU yn ildio ei Thrwydded am ei bod yn bwriadu cyfuno â sefydliad arall ac mae hi'n bwriadu cadw ei gweithrediadau Mynediad i AU, dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â'r canllawiau perthnasol.

## Cam 1 - Hysbysiad cynnar

66 Wrth ymdrin â chais gan Asiantaeth DMiAU am ildio ei Thrwydded, mae QAA yn ceisio sicrhau y bydd trefniadau cadarn ar waith i sicrhau parhad cyson i'r myfyrwyr a'u dyfarniadau, wrth ddod â darpariaeth yr Asiantaeth DMiAU i ben. Felly, yn ôl y disgwyliadau, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA gynted ag y bo modd am ei bwriad i ildio ei Thrwydded, fel digwyddiad hysbysadwy yn unol ag Amod B1 yr *Amodau Mynediad i AU.* Bydd QAA yn gofyn am drafodaeth i ystyried cynlluniau'r Asiantaeth DMiAU, pa mor debygol ydyn nhw, a beth fydd eu heffaith bryd hynny. Ac eithrio achosion eithriadol, disgwylir i'r Asiantaeth DMiAU fod mewn sefyllfa i roi rhybudd cynnar cyn rhoi hysbysiad ffurfiol.

67 Cydnabyddir y gallai penderfyniad i ildio'r Drwydded ar y cam hwn fod yn un petrusgar, yn enwedig lle gallai cyfuniad benderfynu beth yw'r canlyniad. Bydd yr Asiantaeth DMiAU yn derbyn hysbysiad yn unol ag Amod B2 yr *Amodau Mynediad i AU* i roi gwybod i QAA am unrhyw ddiweddariadau i'r digwyddiad hwn, yn cynnwys cynlluniau yn ymwneud â phenderfyniad y corff llywodraethu i ildio, neu os nad yw bellach eisiau gweithredu'r cynlluniau i ildio ei Thrwydded, yn unol â'r arweiniad hwn.

## Cam 2 - Hysbysiad ffurfiol

68 Mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU roi gwybod am ddigwyddiad hysbysadwy newydd sy'n cadarnhau ei bod wedi gwneud penderfyniad i ildio ei Thrwydded Asiantaeth DMiAU, ac mae'n rhaid i hynny ddigwydd cyn unrhyw gamau gweithredu a gymerir gan yr Asiantaeth DMiAU i derfynu ei gweithrediadau Mynediad i AU. Mae gofynion sylfaenol ar gyfer yr hysbysiad hwn, sef bod yn rhaid iddo:

- ddod gyda hysbysiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan Gadeirydd corff uchaf yr Asiantaeth DMiAU
- nodi dyddiad y cyfarfod pan gymeradwyodd y corff y penderfyniad i ildio ei Thrwydded Asiantaeth DMiAU
- nodi'r rhesymau am ildio'r Drwydded
- nodi'r dyddiad terfynu arfaethedig pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn peidio ei gweithrediadau Mynediad i AU (y 'dyddiad ildio'), a dylai hwn fel arfer ddigwydd ar ddiwedd blwyddyn academaidd
- ddod gyda chynlluniau wedi'u cadarnhau ar gyfer ildiad ei Thrwydded (gwelwch isod)
- nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan QAA cyn derbyn yr hysbysiad ffurfiol, wedi ei nodi mewn rhybudd am ddarparu gwybodaeth.

69 Bydd Swyddogion QAA yn derbyn ac yn cydnabod yr hysbysiad ac yn ei rannu gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU gynted ag y bo modd.

### Cynlluniau ar gyfer ildio Trwydded

70 Mae QAA yn disgwyl i gynlluniau'r Asiantaeth DMiAU ar gyfer ildio ei Thrwydded gael eu trafod a'u gwneud yn gyhoeddus ar gam cynnar yn y broses drwy'r broses hysbysu am ddigwyddiadau. Wrth wneud penderfyniad ffurfiol i ildio ei Thrwydded, dylai'r Asiantaeth DMiAU fod mewn sefyllfa i rannu ei chynlluniau a'i threfniadau sydd wedi eu cymeradwyo'n ffurfiol ar gyfer ildio ei Thrwydded gyda QAA. Rhaid i'r cynlluniau hyn gynnwys y canlynol:

- Amseriadau eglur ar gyfer y camau gweithredu sy'n ymwneud â therfynu ei darpariaeth Mynediad i AU.
- Cynlluniau i roi gwybod i randdeiliaid a chyhoeddi gwybodaeth am ei chynlluniau, gan gymryd i ystyriaeth y cyfathrebu â myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr.
- Y cynlluniau ar gyfer aseinio hawliau eiddo deallusol, y bydd QAA yn eu haseinio i'r Asiantaeth DMiAU os nad oes cynlluniau rhesymol eraill ar waith.
- Gwybodaeth gynhwysfawr am yr holl ddarparwyr, Diplomâu a chyrsiau a effeithir gan y cynlluniau, gan gynnwys nifer y myfyrwyr cyfredol sydd wedi eu cofrestru ar bob Diploma penodol.
- Manylion ei threfniadau arfaethedig i fyfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau ac na fyddent wedi cwblhau eu dyfarniad cyn y dyddiad ildio, yn cynnwys myfyrwyr sydd â darpariaethau eithriadol neu estyniadau.
- Manylion ei chynlluniau ar gyfer trosglwyddo unrhyw ddarpariaeth, lle bo'n berthnasol, yn unol â gofynion yr *Amodau*.
- Trefniadau ar gyfer darparu unrhyw ddata monitro terfynol a allai fod yn ofynnol fel arfer gan QAA.

71 Bydd QAA yn asesu'r cynlluniau hyn yn erbyn ei gofynion ac yn penderfynu a oes angen i'r Asiantaeth DMiAU gymryd unrhyw gamau ychwanegol neu wneud ystyriaethau ychwanegol.

### Trosglwyddo'r ddarpariaeth

72 Os nad yw Asiantaeth DMiAU yn bwriadu masnachu'n ddigon hir i allu sicrhau fod pob un o'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'i Darparwyr yn cwblhau eu cyrsiau'n llwyr er mwyn derbyn eu dyfarniad, efallai y bydd angen gwneud trefniadau i'r myfyrwyr hynny gwblhau eu dyfarniad gydag Asiantaeth DMiAU arall. Mae'n rhaid i drefniadau trosglwyddo ystyried gofynion yr *Amodau Mynediad i AU*, yn arbennig Amod D4: 'Trosglwyddo Diplomâu a chyrsiau'. Mae'r gofynion sy'n ymwneud â throsglwyddo credydau'r myfyrwyr i'w cael ym *Manyleb y Diploma.* Lle bo raid, er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr ac os nad oes opsiwn ymarferol amgen, ac os oes sicrwydd y cynhelir safonau'r dyfarniadau Mynediad i AU, gallai QAA weithredu ei hawl i beidio gwneud gofynion yn ymwneud â chydnabod dysgu blaenorol, yn ôl yr achos unigol.

## Cam 3 - Ildio Trwydded

73 Bydd QAA yn monitro gweithrediad cynlluniau'r Asiantaeth DMiAU hyd at y dyddiad ildio. Disgwylir y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion y Cynllun Cydnabod yn ystod y cyfnod hwn.

74 Cyn y dyddiad ildio, neu ar y dyddiad ei hun, fel y cytunir, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU gadarnhau'r pethau hyn i QAA mewn ysgrifen:

- ei bod wedi cwblhau pob un o'i chynlluniau fel y cawsent eu darparu i QAA yn ei hysbysiad ffurfiol;
- bod y sefydliad wedi dinistrio neu roi'r gorau i ddefnyddio pob deunydd sy'n dangos y logo Mynediad i AU neu gydnabyddiaeth gan QAA mewn perthynas â Mynediad i AU, yn unol â'i enw, cynhyrchion neu farchnata; ac
- nad oes materion pellach sydd heb dderbyn sylw y dylai QAA fod yn ymwybodol ohonynt.

75 Cyn y dyddiad ildio, neu ar y dyddiad ei hun, fel y cytunir, bydd QAA yn ysgrifennu at yr Asiantaeth DMiAU i gadarnhau o ba ddyddiad y mae'n cytuno na fydd bellach yn cydnabod y sefydliad fel Asiantaeth DMiAU ac na fydd wedi ei thrwyddedu bellach i gyflawni ei chyfrifoldebau fel asiantaeth o'r fath.

76 Ar ôl yr amser hwn, os bydd y sefydliad eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU eto, bydd yn rhaid iddo wneud cais am Drwydded newydd.

## Rhan 3: QAA yn tynnu Trwydded yn ei hôl

77 Mae tynnu Trwydded yn ei hôl yn gyfatebol ag ymyriad o dan y *Trefniadau Monitro Mynediad i AU* ac mae'r trefniadau i dynnu Trwydded yn ei hôl i'w cael yng nghymal 16 y Telerau Safonol. Yr unig bryd y gallai QAA benderfynu tynnu Trwydded yn ei hôl yw pan fydd y risgiau na fydd Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod mor sylweddol fel na fyddai defnyddio unrhyw sancsiwn arall yn ddigonol, neu os nad yw defnyddio sancsiynau eraill sydd wedi eu nodi yn y *Trefniadau Monitro* wedi bod yn ddigonol i leihau'r risg neu wneud iddi gydymffurfio.

78 Mae cymal 16 y *Telerau Safonol* yn nodi ar ba sail y gall QAA dynnu Trwydded yn ei hôl oddi wrth Asiantaeth DMiAU, ac mae'n nodi y gall QAA derfynu'r Drwydded unrhyw bryd os bydd yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Asiantaeth DMiAU a hynny ar unwaith os cyfyd yr amgylchiadau a ganlyn:

"16.1 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn torri unrhyw rai o'r Telerau hyn neu'r Amodau ac, ar yr amod bod modd unioni'r torri telerau neu amodau, bod yr Asiantaeth DMiAU wedi methu unioni'r toriad hwn o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad gan QAA sy'n gofyn iddi gymryd camau unioni o'r fath;

16.2 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn torri unrhyw rai o'r Telerau hyn neu'r Amodau, ac os na fydd hi'n bosibl unioni'r torri telerau neu amodau;

16.3 os gorchmynnir neu os gwneir penderfyniad i ddirwyn i ben yr Asiantaeth DMiAU (heblaw er mwyn cyfuno neu adlunio solfent) neu os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dod yn atebol i orchymyn gweinyddu, neu os bydd derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi eu penodi ar unrhyw ran o eiddo'r Asiantaeth DMiAU, neu os bydd unrhyw barti sydd â llyffethair ar unrhyw ran o'i heiddo'n cymryd meddiant ohono;

16.4 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â chymal 13.8 y Telerau drwy gychwyn hunaniaeth gyfreithiol newydd heb lynu at weithdrefnau perthnasol QAA;

16.5 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â'r *Gofynion ar gyfer defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU* a osodwyd gan QAA, neu os cafwyd niwed neu mae'n debygol y bydd niwed i enw da QAA am fod yr Asiantaeth DMiAU wedi gwneud unrhyw weithred neu hepgoriad;

16.6 os bydd risg, ym marn resymol QAA, drwy'r modd y mae'r Asiantaeth DMiAU yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU, y gallai'r nod masnach Mynediad i AU golli ei werth oherwydd ei ddefnydd neu gymhwysiad generig; neu fod y nod masnach Mynediad i AU wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai QAA wedi cymeradwyo gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â'r Diploma Mynediad i AU; ac/neu

16.7 os bydd ei ddefnydd gan unrhyw rai o Ddarparwyr yr Asiantaeth DMiAU yn achosi, neu'n debygol o achosi, un o'r canlyniadau sydd wedi eu nodi uchod yng nghymalau 16.5 a 16.6 y Telerau, ac os bydd QAA wedi rhoi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU am amgylchiadau o'r fath, ac os bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi methu cymryd camau unioni priodol o fewn amser rhesymol ar ôl cael eu rhybuddio i wneud hynny."

79 Yr unig bryd y bydd QAA yn mynd ati i dynnu Trwydded yn ei hôl fel arfer, yw:

- pan fydd Trwydded yr Asiantaeth DMiAU wedi ei chyfyngu neu ei hatal dros dro, ac nad yw'r Asiantaeth DMiAU wedi gallu diddymu neu fynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau a welwyd o ganlyniad i sancsiynau eraill;

- pan oedd Trwydded yr Asiantaeth DMiAU wedi cael ei chyfyngu neu ei hatal dros dro yn y gorffennol, ac mae'r Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio dro ar ôl tro â gofynion penodol neu wahanol ofynion ei Thrwydded; neu
- os yw QAA yn barnu bod yma ddiffyg cydymffurfiad â gofynion y Drwydded Asiantaeth DMiAU sy'n ddifrifol neu'n barhaus i'r graddau na fyddai ymyriadau eraill yn ddigonol i ddatrys hynny.

## Gwneud argymhelliad a phenderfyniad i dynnu Trwydded yn ei hôl

80 Os bydd Swyddogion QAA yn barnu bod y pryderon am ddiffyg cydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â gofynion y Cynllun Cydnabod yn cyrraedd y trothwyon uchod, yna argymhellir i'r Pwyllgor RhThrMiAU y dylid tynnu Trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, a rhoddir y rhesymau eglur am hynny ac esbonnir ar ba sail yr ystyrir hynny'n briodol yn unol â'r *Telerau Safonol.*

81 Dylai'r argymhelliad hefyd gynnig y dyddiad pan ddylai'r tynnu'n ôl ddod yn effeithiol (y 'dyddiad tynnu'r Drwydded yn ei hôl') sy'n gymesur â'r risgiau a welwyd, a manylion unrhyw drefniadau y dylai QAA eu hystyried mewn perthynas â therfynu darpariaeth Mynediad i AU yr Asiantaeth DMiAU.

82 Bydd Swyddogion QAA yn trafod yr argymhelliad hwn gyda Chadeirydd y Pwyllgor RhThrMiAU, a fydd yn penderfynu sut a phryd y bydd y Pwyllgor yn cyfarfod i ystyried yr argymhelliad ac i benderfynu argymell y dylai Bwrdd QAA dynnu'r Drwydded yn ei hôl.

83 Os bydd Swyddogion QAA yn barnu nad oes risgiau uniongyrchol sydd angen eu rheoli i fyfyrwyr neu i enw da'r Diploma Mynediad i AU, gallai Trwydded yr Asiantaeth DMiAU gael ei hatal dros dro tra bydd yn aros am gymeradwyaeth gan Fwrdd QAA i'w thynnu'n ei hôl. Gall Prif Weithredwr QAA wneud y penderfyniad i atal Trwydded Asiantaeth DMiAU dros dro.

84 Pan ystyrir ei bod hi'n briodol i'r Asiantaeth DMiAU barhau i weithredu, mae'n debyg yr argymhellir rhoi cyfyngiadau ar y Drwydded. Yn arbennig, mae cyfyngiadau'n debygol o gael eu hargymell mewn perthynas â:

- datblygu, dilysu a chymeradwyo Diplomâu a chyrsiau newydd.
- cymeradwyo darparwyr newydd.
- cofrestru myfyrwyr newydd.

85 Os bydd y Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno ei bod hi'n briodol ac yn angenrheidiol tynnu'r Drwydded yn ei hôl, bydd yn gwneud argymhelliad i Fwrdd QAA. Pan fydd Bwrdd QAA wedi cymeradwyo hyn, daw'n effeithiol naill ai o'r dyddiad cymeradwyo neu o ddyddiad rhesymol ar ôl hynny a argymhellir gan Swyddogion QAA.

86 Os na fydd y Pwyllgor RhThrMiAU yn cytuno ei bod hi'n briodol ac yn angenrheidiol tynnu'r Drwydded yn ei hôl, gwneir asesiad o ymyriadau priodol eraill.

## Hysbysiad ffurfiol

87 Rhoddir gwybod mewn ysgrifen i'r Asiantaeth DMiAU bod y Pwyllgor RhThrMiAU yn ystyried tynnu'r Drwydded yn ei hôl, a nodir unrhyw sancsiynau eraill sy'n weithredol yn ystod y cyfnod hwn. Rhoddir gwybod unwaith eto os bydd Bwrdd QAA yn cymeradwyo ei thynnu yn ei hôl. Cyfeirir yr ohebiaeth ar gorff uchaf yr Asiantaeth DMiAU a dylid cydnabod ei derbyn o fewn 1 diwrnod gwaith.

## Trefniadau i dynnu Trwydded yn ei hôl

88 Yn ystod y broses o wneud penderfyniad, bydd QAA yn ymgysylltu â'r Asiantaeth DMiAU i sicrhau fod unrhyw gamau i liniaru'n cael eu rheoli gan yr Asiantaeth DMiAU yn unol â'r trefniadau a wnaethant o dan Amod A4 (canfod a rheoli risgiau) ac i sicrhau bod y trefniadau hyn wedi eu rheoli ac yn cyfateb â gofynion QAA er mwyn cynnal y safonau a diogelu'r myfyrwyr. Wrth wneud hynny, bydd QAA yn gweithio gyda'r Asiantaeth DMiAU i sefydlu cynllun ar gyfer tynnu Trwydded yn ei hôl, gan dalu sylw yn arbennig i'r pethau hyn:

- tynnu cymeradwyaeth i gyrsiau yn ei hôl
- trosglwyddo'r ddarpariaeth
- dyrannu hawliau eiddo deallusol
- cyfathrebu â rhanddeiliaid a gwybodaeth gyhoeddus am dynnu'r Drwydded yn ei hôl, a chysylltiad yr Asiantaeth DMiAU gyda QAA, ei logos a'i nodau masnach.

89 Ar ddyddiad tynnu'r Drwydded yn ei hôl, dylai'r Asiantaeth DMiAU gadarnhau'r pethau hyn i QAA mewn ysgrifen:

- ei bod wedi cwblhau pob un o'i chynlluniau ar gyfer tynnu'n ôl fel y trafodwyd gyda QAA,
- bod y sefydliad wedi dinistrio neu roi'r gorau i ddefnyddio pob deunydd sy'n dangos y logo Mynediad i AU neu gydnabyddiaeth gan QAA mewn perthynas â Mynediad i AU, yn unol â'i enw, cynhyrchion neu farchnata; ac
- nad oes materion pellach sydd heb dderbyn sylw y dylai QAA fod yn ymwybodol ohonynt.

90 Os bydd y broses o dynnu Trwydded yn ei hôl, a'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau'r trefniadau tynnu'n ôl, yn golygu y gallai'r dyddiad rhesymol ar gyfer tynnu'r Drwydded fod yn hwyrach na diwedd cyfnod dilysrwydd cyfredol y Drwydded, bydd trefniadau wedi eu hargymell yn yr argymhelliad i Fwrdd QAA i naill ai:

- Ymestyn cyfnod dilysrwydd cyfredol y Drwydded, yn eithriadol, er mwyn ystyried y broses o ddirwyn y trefniadau dyfarnu i ben; neu
- Wneud trefniadau eithriadol ar gyfer trosglwyddo credyd neu ddyfarniad Diplomâu Mynediad i AU sy'n cynnal y safonau priodol.

91 Gellid ystyried y penderfyniad i dynnu Trwydded yn ei hôl yn unol â'r drefn apelio ar gyfer Mynediad i AU (gwelwch Ran 4 isod) lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn ystyried bod ganddi sail resymol dros apelio.

## Rhan 4: Cwyno ac apelio

92 Mae'n bosibl y gellir apelio yn erbyn penderfyniadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor RhThrMiAU i Fwrdd QAA sy'n ymwneud â dyfarnu Trwyddedau a'u tynnu yn eu holau.

93 Os bydd Asiantaeth DMiAU eisiau apelio yn erbyn hyd cyfnod dilysrwydd penodol y Drwydded Asiantaeth DMiAU a ddyfarnwyd iddi, gallent wneud hyn drwy ddilyn y *Drefn Apelio ar gyfer y Diploma Mynediad i Addysg Uwch*.

94 Os bydd sefydliad neu Asiantaeth DMiAU sy'n gwneud cais eisiau mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarperir gan QAA neu unrhyw gamau a gymerwyd ganddi mewn perthynas â'r broses ar gyfer gwneud cais am Drwydded Asiantaeth DMiAU newydd neu Drwydded wedi'i hadnewyddu, gallent wneud hynny drwy ddilyn Gweithdrefn QAA ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion.

Cyhoeddwyd ar 29 Mai 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2025
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
www.qaa.ac.uk